# Y BWRDD GWEITHREDOL

Dydd Llun, 6 Chwefror 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E. Dole (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
L.D. Evans, M. Gravell, D.M. Jenkins, G.O. Jones, T.J. Jones, P.A. Palmer, L.M. Stephens and J. Tremlett

**Yn bresennol fel sylwedyddion:-**
Y Cynghorwyr D.M.Cundy, J.S. Edmunds a J. James

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
Mr M. James – Y Prif Weithredwr
Mr J. Morgan - Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol
Mr C. Moore - Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol
Ms R. Mullen - Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
Mr G. Morgans - Cyfarwyddwr Dros Dro Addysg a Gwasanaethau Plant
Ms W. Walters - Prif Weithredwr Cynorthwyol
Ms L. Rees-Jones - Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
Mr O. Bowen - Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol
Ms D. Hockenhull - Rheolwr Marchnata a'r Cyfryngau
Mr K. Thomas - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd y Sir - 10.00 - 11.10 am**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd H.A.L. Evans.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd dim buddiannau personol yn y cyfarfod.

## 3. CWESTIYNAU Â RHYBYDD GAN AELODAU

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr aelodau.

## 4. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 5. STRATEGAETH Y GYLLIDEB REFENIW 2017/18 - 2019/20

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn dwyn ynghyd y cynigion diweddaraf ynghylch Cyllideb Refeniw 2017/2018 a'r ffigurau mynegiannol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2018/2019 a 2019/2020 a oedd yn crynhoi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y gyllideb gan roi diweddariad ynghylch dilysu'r gyllideb, y gwasgfeydd o ran gwariant, setliad terfynol Llywodraeth Cymru, a'r ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch y gyllideb.

Amlinellwyd i'r aelodau gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau nifer o ffactorau a oedd yn dylanwadu ar y gyllideb a oedd yn cynnwys cyllid ychwanegol posibl gan Lywodraeth Cymru am nifer o feysydd, yn bennaf, Gwasanaethau Cymdeithasol – £600k i gefnogi'r pwysau o ran y cyflog byw cenedlaethol, a chymorth ar gyfer ardrethi annomestig sydd wedi'u targedu at fusnesau ar y stryd fawr. Tynnwyd sylw hefyd at Ofal Cartref lle byddai £150k yn ychwanegol ar gael drwy gynyddu'r isafswm wythnosol o £60 i £70. Fodd bynnag, dywedodd hyd nes y ceir cadarnhad o ran gwerth yr holl grantiau penodol, a fyddai'n cefnogi cynllun y gyllideb, roedd elfen o risg ariannol yn rhan o'r cynllun presennol.

Yn ogystal â'r uchod, dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau fod trafodaethau wedi bod ar waith ag Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys y Cyngor, yn unol â'r disgresiwn a ganiateir o dan y rheoliadau, o ran y posibilrwydd o wneud addasiadau i Isafswm y Ddarpariaeth Refeniw o falans gostyngol ar gost o 4% i ddefnyddio dull llinell syth o 2.5% petai hyn yn cael ei gymeradwyo gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r Cyngor, gallai arwain at ryddhau arian sydd o bosibl tua £2.4m. Petai'r addasiad yn cael ei gymeradwyo, ystyriwyd y byddai'n rhesymol i'r arbedion amcangyfrifedig gael eu defnyddio ar gyfer eitemau unigol, neu eitemau y gellid eu cefnogi yn y tymor byr drwy ddefnyddio arian wrth gefn. Yn hynny o beth, cynigiwyd bod y swm o £1m yn cael ei gynnwys yn Strategaeth Cyllideb Refeniw 2017/18 ac £1.5m i'r rhaglen gyfalaf yn 2017/18 er mwyn hwyluso'r gwaith brys ar gyfer Harbwr Porth Tywyn.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau wrth ystyried y ffactorau uchod, ynghyd â'r ffaith bod yr Awdurdod wedi elwa ar setliad cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru, bu'n bosibl adolygu'r arbedion effeithlonrwydd cychwynnol a gynigiwyd yn y gyllideb wreiddiol. O ganlyniad, nodwyd £1.92m yn ychwanegol a allai fod ar gael yn 2017/18 a fyddai'n golygu bod modd rhoi ystyriaeth bellach i'r meysydd canlynol:

1. Adborth o'r ymgynghoriad ar yr arbedion a'r hyn y dylid ei roi ar waith,
2. Y cynnydd yn lefel y Dreth Gyngor
3. Unrhyw fuddsoddiad ychwanegol mewn meysydd gwasanaethau penodol.

Yn dilyn yr ystyriaeth honno, cynigiwyd y newidiadau canlynol i rai o'r cynigion am arbedion effeithlonrwydd yn yr adroddiad a oedd gobeithio yn dangos bod yr Awdurdod wedi gwrando ar y safbwyntiau a fynegwyd fel rhan o'r ymarfer ymgynghori:-

- Bod y cynnig mewn perthynas â grantiau i'r sector gwirfoddol yn cael ei gyflwyno'n raddol dros gyfnod hirach o amser a bod £135k o'r gostyngiad arfaethedig yn cael ei wrthdroi a bod gostyngiad o £35k fesul blwyddyn yn cael ei gyflwyno'n raddol dros y blynyddoedd nesaf gan ddechrau yn 2017/18;
- Bod y cynnig i drosglwyddo neu gau Canolfan Hamdden Sanclêr yn cael ei ailystyried a fyddai'n golygu tynnu'r arbedion 3 blynedd o £96k yn eu hôl, yr oedd £16k o'r arbedion hynny mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2017/18;
- Bod yr arbedion arfaethedig ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid mewn perthynas â Chanolfan y Cei, Caerfyrddin yn cael eu haneru a fyddai'n caniatáu £10k yn ychwanegol i gefnogi'r gwasanaeth ieuenctid.

- Ychwanegu £1.76m at y Gyllideb Ysgolion Dirprwyedig a fyddai'n sicrhau ei bod mewn sefyllfa niwtral yn ariannol eto.

Wrth grynhoi, argymhellodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol fod y cynnydd yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2017/18 yn parhau yn 2.5%, a gefnogwyd gan y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR:-**

**5.1 bod Strategaeth y Gyllideb am 2017/18 yn cael ei chymeradwyo yn amodol ar y newidiadau a'r cynigion y manylwyd arnynt uchod;**

**5.2 bod y dreth gyngor ar gyfer Band D yn 2017/18 i'w gosod ar £1,145.61 (cynnydd o 2.5% ar gyfer 2017-2018);**

**5.3 bod y cynllun ariannol tymor canolig (gan gynnwys y newidiadau a nodwyd uchod) yn cael ei gymeradwyo yn sylfaen i gynllunio ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod.**

## 6. RHAGLEN GYFALAF PUM MLYNEDD (CRONFA'R CYNGOR) - 2017/18 - 2021/22

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a nodai'r holl gynigion diweddaraf am Raglen Gyfalaf Bum Mlynedd 2017/18 – 2021/2022 gan ystyried yr ymarfer ymgynghori a gyflawnwyd.

Nododd y Bwrdd mai £71.760m oedd gwariant gros arfaethedig y rhaglen gyfalaf am 2017/18. Y bwriad oedd i'r Cyngor Sir gyllido £46.642m gan y Cyngor Sir drwy ddefnyddio benthyciadau, derbyniadau cyfalaf, arian wrth gefn, y grant cyfalaf cyffredinol a'r gweddill o £25.118m gan ffynonellau allanol. Dywedwyd wrth y Bwrdd y rhagwelid y byddai'r rhaglen gyfalaf yn cael ei chyllido'n llawn dros y 4 blynedd gyntaf o 2017/18 i 2020/21 er y byddai diffyg yn 2021/2022 a fyddai'n cael ei adolygu yn ystod y flwyddyn i ddod.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau wrth y Bwrdd y byddai cyfanswm y rhaglen dreigl bum mlynedd yn gweld buddsoddiad o £210m (cyllid £124m gan y Cyngor Sir a £85m o gyllid allanol) a bod yr Awdurdod, fel rhan o'r rhaglen honno wedi cynnwys prosiectau newydd ychwanegol a oedd o bwys i'r sir, er enghraifft cynlluniau newydd yn Harbwr Porth Tywyn, Parc Gwledig Pen-bre, Cynnal a Chadw Priffyrdd a Phontydd, Ysgolion yr 21ain Ganrif, Ffordd Gyswllt Cross Hands, Coridor Trafnidiaeth Dyffryn Tywi, Gweithdai Glanaman a Thechnoleg Gwybodaeth.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR:-**

**6.1 bod y cyllid a'r Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd, fel y'u nodwyd yn Atodiad B, gyda 2017/18 yn gyllideb bendant a chyllidebau 2018/19 – 2021/22 yn gyllidebau amhendant/dangosol yn cael eu cymeradwyo;**

**6.2 bod cyllideb 2021/22 yn cael ei hadolygu dros y flwyddyn i ddod er mwyn ymdrin â'r diffyg yn y cyllid;**

**6.3 adolygu'r rhaglen, yn ôl yr arfer, oni lwyddir i gael y cyllid gan y Cyngor Sir neu'r cyllid allanol disgwyliedig.**

## 7. CYFRIF CYLLIDEB REFENIW TAI 2017/18 - 2019/20 A LEFELAU RHENTI TAI 2017/18

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a baratowyd gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, ar y cyd â swyddogion o'r Adran Cymunedau, ac a nodai'r holl gynigion diweddaraf ar gyfer Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai am 2017/2020. Nodwyd bod yr adroddiad wedi cael ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Craffu – Cymunedau yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr 2017 fel rhan o'r broses ymgynghori ynghylch y gyllideb.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai fod yr adroddiad wedi cael ei baratoi gan adlewyrchu'r cynigion diweddaraf a oedd yn rhan o Gynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai, sef y prif gyfrwng cynllunio ariannol ar gyfer darparu Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy (CHS+) ar gyfer y dyfodol. Nodwyd bod y buddsoddiad arfaethedig yn y cynllun busnes presennol yn darparu'r CHS erbyn 2015 (i'r cartrefi hynny lle'r oedd tenantiaid wedi cytuno i gael y gwaith) yn darparu'r buddsoddiad i gynnal y CHS+ ac yn dechrau ar y buddsoddiad ar gyfer Ymrwymiad i Dai Fforddiadwy'r Cyngor.

Cyfeiriodd y Cynghorydd D. Cundy at y pryder a fynegwyd gan y Pwyllgor Craffu - Cymunedau, yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr 2017, ynghylch effaith bosibl newidiadau Budd-dal Tai Llywodraeth y DU, ar y rheiny o dan 21 oed, a gofynnodd a oedd effaith y ddeddfwriaeth arnynt yn cael ei monitro, yn enwedig o ran digartrefedd cudd a chenhedlaeth y rhai sy'n cysgu ar soffas ffrindiau ac sydd o dan 25 oed. Wrth gydnabod y pryderon hyn, amlinellodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai i'r Bwrdd y grwpiau amrywiol na effeithir arnynt gan y ddeddfwriaeth. Cadarnhaodd fod yr Awdurdod, ynghyd â nifer o'i bartneriaid, Cymdeithasau Tai, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol eraill yn monitro effaith y ddeddfwriaeth. Yn ogystal, byddai'r Is-adran Dai yn darparu cyngor ac arweiniad i'r rheiny yr effeithir arnynt gan y ddeddfwriaeth, fel y nodwyd yn yr adroddiad (tudalen 253), ynghyd â sefydlu Strategaeth Tai ar gyfer y rheiny dan 35 oed.

Yn dilyn ystyried argymhellion Grŵp Llywio Safon Tai Sir Gaerfyrddin

**PENDERFYNODD Y BWRDD GWEITHREDOL YN UNFRYDOL ARGYMELL Y CANLYNOL I'R CYNGOR:-**

**7.1 cynyddu'r rhent yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru h.y.:-**

- **Bydd eiddo 'rhenti targed' yn cynyddu 2.5% (Mynegai Prisiau Defnyddwyr + 1.5%)**
- **Yn achos eiddo lle mae'r rhent yn is na'r targed rhent, bydd y rhent yn cynyddu 2.5% (Mynegai Prisiau Defnyddwyr + 1.5%) a cham cynnydd mwyaf o £2**
- **Bod yr eiddo a oedd yn uwch na'r targed rhent yn cael eu rhewi hyd nes iddynt ddod yn unol â'r targed**

**gan arwain felly at gynnydd yn y rhent ar gyfartaledd o £2.84, at gynllun busnes cynaliadwy, at gynnal Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy a darparu adnoddau i'r Rhaglen Tai Fforddiadwy;**

**7.2 Parhau â'r camau cynnydd mwyaf posibl o £2 a ganiateir ar gyfer rhenti sy'n is na'r rhenti targed, hyd nes y cyrhaeddir y rhenti targed;**

**7.3 Codi rhent garejis i £9.00 yr wythnos (o £8.75 yn 2016/17) a chodi'r rhent am seiliau garejis i £2.25 yr wythnos (o £2.20 yn 2016/17);**

**7.4 Rhoi'r polisi ynghylch taliadau am wasanaethau ar waith er mwyn sicrhau bod y tenantiaid a oedd yn cael gwasanaethau penodol yn talu am y gwasanaethau hynny;**

**7.5 Cynyddu'r costau ar gyfer defnyddio gwaith trin carthion y Cyngor yn unol â'r cynnydd yn y rhent;**

**7.6 cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf arfaethedig a'r cyllid perthnasol ar gyfer 2017/18 a'r gwariant dangosol ar gyfer y blynyddoedd i ddod. 2018/19 a 2021/22 fel y'u nodwyd yn Atodiad A yr adroddiad;**

**7.7 Cymeradwyo Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2017/18 (cyllidebau dangosol yw rhai 2018/19 a 2019/20), fel y nodwyd yn Atodiad B**

## 8. SAFON TAI SIR GAERFYRDDIN A MWY (STSG+) "DARPARU'R PETHAU PWYSIG" CYNLLUN BUSNES 2017-20

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried Cynllun Safon Tai Sir Caerfyrddin a Mwy 'Cyflawni'r Hyn sydd o Bwys 2017-2020', a prif bwrpas y cynllun oedd:

- egluro gweledigaeth a manylion Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy, a'r hyn y mae'r Safon yn ei olygu i'r tenantiaid;
- cadarnhau'r proffil ariannol, yn seiliedig ar y rhagdybiaethau presennol, ar gyfer cyrraedd Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy dros y tair blynedd nesaf; a
- llunio cynllun busnes ar gyfer y cais blynyddol i Lywodraeth Cymru am Lwfans Atgyweiriadau Mawr (MRA), 2017/18, sy'n gyfwerth â £6.1m.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai pe bai'r adroddiad a'i argymhellion yn cael eu mabwysiadu, byddai'n arwain at £55m yn cael ei wario dros y tair blynedd nesaf yn cynnal a chadw a gwella ymhellach cynllun Safon Tai Sir Caerfyrddin a Mwy (£25m) a darparu'r Cynllun Tai Fforddiadwy (£30m) drwy ystod o ddatrysiadau gan gynnwys tai newydd.
PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR:-

**8.1 Bod gweledigaeth CHS+ a'r rhaglen o ran yr elfennau ariannol a chyflawni yn ystod y tair blynedd nesaf yn cael eu cadarnhau;**

**8.2 cadarnhau cyflwyno'r cynllun i Lywodraeth Cymru.**

## 9. POLISI RHEOLI'R TRYSORLYS A STRATEGAETH 2017-2018

Atgoffwyd y Bwrdd Gweithredol bod y Cyngor, yn unol â gofynion Côd Ymarfer diwygiedig CIPFA ynghylch Rheoli'r Trysorlys, wedi cytuno i gynnal Polisi Rheoli'r Trysorlys a oedd yn manylu ar bolisïau ac amcanion gweithgareddau'r Awdurdod o ran Rheoli'r Trysorlys, a hefyd i gymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn flynyddol cyn dechrau'r flwyddyn ariannol yr oedd yn ymwneud â hi. Hefyd, dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2003, roedd yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Yn unol â'r gofynion uchod, bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried Polisi a Strategaeth y Cyngor ynghylch Rheoli'r Trysorlys ar gyfer blwyddyn ariannol 2017–18 cyn iddynt gael eu rhoi gerbron y Cyngor yn ffurfiol i'w mabwysiadu'n derfynol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR:-**

**9.1 Bod y Polisi a'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2017/18 a'r argymhellion a nodwyd ynddynt yn cael eu cymeradwyo,**

**9.2 bod y Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys, y Datganiad ynghylch Lleiafswm y Ddarpariaeth Refeniw a'r argymhellion yn cael eu cymeradwyo.**

**10. ADRODDIAD CHWARTEROL YNGYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDD DARBODAETH EBRILL 1AF 2016 I RHAGFYR 31AIN 2016**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau Rheoli'r Trysorlys, 1 Ebrill 2016 – 31 Rhagfyr 2016.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

**11. HARBWR PORTH TYWYN - GWAITH CYNNAL A CHADW YN Y DYFODOL**

Yn dilyn cofnod 11 o'i gyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2015, bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad ar ganlyniad yr archwiliadau i'r gwaith carthu y mae angen ei wneud yn Harbwr Porth Tywyn, ynghyd ag adolygiad o'r gofynion cynnal a chadw ar gyfer waliau rhestredig Gradd II yr harbwr. Roedd yr adroddiad yn darparu crynodeb o'r materion a nodwyd, y risgiau a'r costau ynghyd ag ystod o opsiynau cynnal a chadw yn y dyfodol a oedd yn amrywio o 'ymagwedd gwneud dim' i raglen gynnal a chadw cynaliadwy wedi'i chynllunio a oedd yn rhoi rhyw fath o sicrwydd am y costau parhaus o ran y gwaith carthu a'r atgyweiriadau i wal yr harbwr. Fodd bynnag, nid oedd yr ymagwedd 'gwneud dim' yn berthnasol i waliau'r harbwr wrth ystyried eu statws rhestredig.

Nododd y Bwrdd Gweithredol fod y Pwyllgor Craffu - Cymunedau, yn ystod ei gyfarfod ar 20 Ionawr, 2017 wedi cymeradwyo canfyddiadau'r adroddiad ac wedi argymell sicrhau bod darpariaeth briodol ar gael o fewn cyllidebau refeniw a chyfalaf y Cyngor i gynnal yr harbwr yn barhaus.

Atgoffwyd y Bwrdd Gweithredol, mewn ymateb i argymhelliad gan y pwyllgor craffu, fel rhan o'i ystyriaeth gynharach o'r cynigion yn y gyllideb (Cofnod 5 a 6 uchod) ei fod wedi cytuno i roi £2.34m yn ychwanegol o fewn rhaglen gyfalaf y Cyngor i ariannu gwaith brys i'r Harbwr.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Cundy ynghylch y posibilrwydd o werthu unrhyw dywod a silt o'r môr a oedd yn cael ei garthu o'r harbwr er mwyn lliniaru'r gost o garthu a gwneud gwaith atgyweirio i waliau'r harbwr, dywedwyd wrth y Bwrdd Gweithredol nad oedd hyn yn bosibl.

Cafwyd datganiad yn cefnogi'r cynigion ar gyfer yr harbwr gan y Cynghorydd J. James.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, bod y rhaglen gynnal a chadw ar gyfer Harbwr Porth Tywyn a'r cynigion cyllido yn cael eu cymeradwyo.**

## 12. SAFLE CWRS FFORDD GAEEDIG AR GYFER RASIO BEICS

Yn dilyn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mai, 2016 (cofnod 5), bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am y cynigion i ddatblygu Cwrs Ffordd Gaeedig ar gyfer Rasio Beics yn Sir Gaerfyrddin. Nodwyd yn dilyn hysbysebu am fynegiannau o ddiddordeb gan berchenogion tir yn Sir Gaerfyrddin a allai fod â diddordeb mewn gweithio gyda'r Awdurdod a Beicio Cymru i ddatblygu'r cyfleuster ar eu tir, nodwyd dau safle posibl sef Parc Gwledig Pen-bre sy'n berchen i'r Cyngor a thir ar Gae Rasio Ffoslas. Dywedwyd wrth y Bwrdd, ar ôl ystyried y ddau safle posibl, bod Beicio Cymru, yn amodol ar gostau adeiladu ffafriol, yn ffafrio'r datblygiad ym Mharc Gwledig Pen-bre.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Cundy ynghylch yr amserlen o ran y ddarpariaeth ar gyfer y cwrs, dywedodd Arweinydd y Cyngor y byddai pob ymdrech yn ei wneud er mwyn hwyluso'r ddarpariaeth ar frys.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**12.1 Cymeradwyo'r safle datblygu a ffefrir ar gyfer datblygu Cwrs Ffordd Gaeedig ar gyfer Rasio Beics sydd wedi'i gynnig gan Feicio Cymru, sef yr hen uned ddiwydiannol wrth fynedfa Parc Gwledig Pen-bre,**

**12.2 Symud ymlaen i brynu'r tir a chwblhau'r ddogfennaeth angenrheidiol ar gyfer yr amrywiad i Gytundeb y Cyd-fenter,**

**12.3 Bod tîm dylunio ac adeiladu Cyngor Sir Caerfyrddin yn cwblhau arolygon o'r safle, yna'n prynu ac yn rheoli'r gwaith adeiladu drwy'r cytundeb fframwaith mewnol er mwyn rheoli'r risgiau dylunio ac adeiladu, yn unol â'r gyllideb a'r rhaglen gyfalaf.**

**12.4 Bod swyddogion adran y gyfraith, eiddo a hamdden y Cyngor yn cydgysylltu â Beicio Cymru i gytuno ar les atgyweirio a chynnal a chadw ar gyfer y safle ar rent hedyn pupur a chynnwys cymal yn sicrhau bod unrhyw arian dros ben o weithredu'r adnodd yn cael ei ail-fuddsoddi i ddatblygu beicio o fewn Sir Gaerfyrddin.**

## 13. GORCHYMYN DATBLYGU LLEOL DRAFFT – CANOL TREF LLANELLI

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad ar gynigion drafft i gyflwyno Gorchymyn Datblygu Lleol ar gyfer Canol Tref Llanelli gyda'r nod o adlewyrchu'r amcanion adfywio corfforaethol ar gyfer canol y dref, ac ar yr un pryd sicrhau bod y materion ynghylch bywiogrwydd a hyfywedd yn cael ystyriaeth briodol gan ddefnyddio darpariaethau'r polisi cynllunio cenedlaethol. Dywedwyd wrth y Bwrdd, petai'r Gorchymyn yn cael ei gyflwyno, byddai'n caniatáu ystod o ddefnyddiau o fewn ardal ofodol benodol heb angen cyflwyno cais cynllunio i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, yn amodol ar yr Awdurdod yn rhoi 'tystysgrif cydymffurfiaeth'.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Cundy, ynghylch darparu cynllun ar gyfer datblygu Llanelli, cadarnhaodd Arweinydd y Cyngor fod prif gynllun 30

mlynedd eisoes wedi cael ei baratoi, a oedd yn cael ei weithredu gan Dasglu Llanelli, ac roedd ar gael i'r cyhoedd ei weld.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR:-**

**13.1 bod yr adroddiad, a chwmpas y Gorchymyn Datblygu Lleol arfaethedig yn cael eu cymeradwyo i'w hystyried drwy gyfrwng y broses adrodd ddemocrataidd**
**13.2 cymeradwyo cyhoeddi'r Gorchymyn Datblygu Lleol terfynol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus am gyfnod o 6 wythnos o leiaf**
**13.3 bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i swyddogion i baratoi tystiolaeth i gefnogi'r Gorchymyn Datblygu Lleol,**
**13.4 bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i swyddogion i wneud mân newidiadau golygyddol a ffeithiol i'r Gorchymyn Datblygu Lleol.**

| | |
|---|---|
| ________________________ | __________________ |
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |